






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

14 Awst 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

14 Awst 2020


Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Mae'r amcangyfrifon ar gyfer y gyfradd twf yng Nghymru yn dangos y gallai heintiau fod yn gostwng hyd at 4% y dydd neu'n cynyddu hyd at 1% y dydd. Fodd bynnag, mae ansicrwydd mawr yn yr amcangyfrifon hyn gan eu bod yn seiliedig ar niferoedd achosion isel a/neu gan fod achosion wedi'u clystyru yn dylanwadu'n drwm arnynt.
- Mae'r canlyniadau ar gyfer Cymru yn Astudiaeth Heintiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod 0.05% o boblogaeth y gymuned wedi cael COVID-19 dros y pythefnos diwethaf. Bydd cryn ansicrwydd yn yr amcangyfrif hwn nes bod maint y sampl yn cynyddu dros ragor o wythnosau.

Cyfradd twf

- Mae naw model i'w cael ar hyn o bryd sy'n amcangyfrif y cyfraddau twf yng Nghymru. Caiff canlyniadau'r modelau hyn hefyd eu cyfuno gan ddefnyddio pwysoliadau cyfartal er mwyn darparu'r amcangyfrif cyffredinol o'r gyfradd twf. Mae Ffigur 1 yn dangos yr amcangyfrifon o'r cyfraddau twf diweddaraf ar gyfer Cymru, gan gynnwys y model cyfun.
- Amcangyfrifir bod y gyfradd twf bresennol rhwng -0.04 a 0.01. Mae cryn ansicrwydd ynghylch y gwir gyfradd twf; gallai heintiau fod yn gostwng hyd at 4% y dydd neu'n cynyddu hyd at 1% y dydd.
- Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r gyfradd twf a'r rhif atgynhyrchu ar gyfer Cymru. Y rheswm am hyn yw bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar nifer bach o achosion a bod achosion wedi'u clystyru yn dylanwadu'n drwm arnynt, sy'n golygu nad ydynt yn ddigon cadarn i lywio penderfyniadau polisi.

Ffigur 1: Yr amcangyfrifon cyfredol ar gyfer cyfradd twf yng Nghymru – gyda chyfyngau hyder o 90%, a'r model cyfun yn seiliedig ar bwysau cyfartal



Allwedd



Rhif atgynhyrchu


- Yr amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu R_t ar gyfer Cymru gan SAGE yw rhwng 0.80 a 1.1. Oherwydd y nifer isel o achosion, mae'r amcangyfrif o R_t yn cael ei ddangos bellach fel amrediad heb amcangyfrif canolog. Mae'r cyfwng hyder mawr yn awgrymu lefel uchel o ansicrwydd o union werth R_t .
- Bydd gwerth R_t sy'n is nag 1 yn gyson yn arwain at leihad yn nifer yr achosion a nifer y derbyniadau i'r ysbyty, ond bydd gwerth R_t uwch na 1 yn arwain at gynydd yn nifer yr achosion a'r nifer derbyniadau i'r ysbyty. Wrth i nifer yr achosion ddisgyn, gall effaith digwyddiadau gor-wasgaru gynyddu, a gallai achosion o ledaenu'r firws i sawl person mewn cyfnod byr o amser yn gallu arwain at amrywiadau yn nifer yr achosion.

Yr Amcangyfrif Presennol o R_t

- Mae tystiolaeth bod amrywiadau bychan yn yr R_t rhwng gwahanol wledydd y DU. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn rhannol oherwydd y niferoedd llai o achosion a marwolaethau o'i gymharu â Lloegr.

- Ni fydd unrhyw newidiadau o ran trosglwyddo a allai fod wedi digwydd yn y ddwy i dair wythnos ddiwethaf yn cael eu hadlewyrchu mewn data clinigol eto, nac ychwaith felly yn yr amcangyfrifon cyfredol o R_t .
- Mae tri lleoliad sy'n arbennig o berthnasol i'r sefyllfa bresennol: y gymuned, cartrefi gofal ac ysbytai. Nid yw'r rhain yn annibynnol; gall haint gael ei ledaenu rhwng ysbytai a chartrefi gofal, o'r lleoliadau hyn yn ôl i'r gymuned, ac i'r gwrthwyneb. Ni ellir casglu'r rhain drwy amcangyfrif R_t ar wahân ar gyfer cartrefi gofal ac ysbytai. Mae R_t ond yn ystyried trosglwyddiad i eraill pan fydd y feirws wedi'i gyflwyno i boblogaeth benodol.
- Mae SPI-M-O yn argymhell peidio â monitro'r sefyllfa mewn lleoliadau penodol gan ddefnyddio R_t ond yn hytrach monitro sut y mae nifer yr achosion a'r marwolaethau ynddynt yn newid, a lle bo modd, drwy gynnal ymchwiliad epidemiolegol i sut y mae'r tri epidemig yn rhyngweithio.
- Er mwyn ystyried yr holl dystiolaeth a'r holl ddulliau, mae'r canlyniadau o bob model yn cael eu cyfuno gan ddefnyddio pwysoliad cyfartal i roi amcangyfrif cyffredinol o'r R_t yng Nghymru. Dangosir hwn mewn du i'r dde o Ffigur 2 isod.
- Mae'r canlyniadau yn ddiennw er mwyn osgoi rhoi blaenoriaeth i un model penodol dros un arall. Dangosir cyfyngau hyder (90%) hefyd. Mae'r fethodoleg ar gyfer model Comix yn wahanol iawn, felly ni ellir ei chymharu â'r modelau eraill. Caiff ei blotio felly ar wahân i'r lleill, a'i dangos mewn glas ar yr ochr dde i Ffigur 2.

Ffigur 2. Amcangyfrifon cyfredol o R_t yng Nghymru – gyda chyfyngau hyder 90%, ynghyd â'r model cyfunol yn seiliedig ar bwysoliadau cyfartal



Allwedd



Amser haneru


- Ar hyn o bryd ni ellir llunio amcangyfrifon dibynadwy o amseroedd haneru oherwydd y nifer isel o dderbyniadau i'r ysbyty.

Glynu wrth y mesurau presennol, a symudedd

- Dangosodd data diweddaraf IPSOS MORI fod llawer o bobl yng Nghymru yn parhau i ddilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol. Bu gostyngiadau pellach yn nifer y rhai sy'n teithio pan fo hynny'n hanfodol yng Nghymru wrth weithio gartref, ac roedd y gyfradd o bobl a oedd yn osgoi trafndiaeth gyhoeddus nad oedd yn hanfodol a chadw 2 fetr i ffwrdd oddi wrth eraill wedi aros yn sefydlog.
- Mae Ffigur 3 isod yn dangos data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg o sawl gwlad. Mae pob un o'r tonnau wedi cynnwys tua 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru

16-74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/- 4.8 pwynt canran.


Ffigur 3: Cydymffurfiaeth â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol yng Nghymru



- Mae symudedd yn yr wythnos ddiwethaf yn dangos darlun cymysg, gyda rhywfaint o gynnydd a rhai yn dangos ychydig o newid. Roedd cynnydd ychydig yn fwy mewn symudedd yng Nghymru na'r gwledydd eraill.
- Yng nghanol mis Ebrill roedd symudedd [defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen, mae hyn tua 4% yn is erbyn hyn ac yn debyg i'r wythnos diwethaf. Mae 24% o ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru yn aros lle maen nhw, eto'n debyg i'r wythnos flaenorol. Ddechrau mis Ebrill roedd tua 45% yn aros lle roeddent - tua 18% oedd hyn ar ddechrau mis Mawrth.
- Mae [data Apple](#) sy'n dangos ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi cynyddu'n sylweddol ers dechrau mis Gorffennaf a bellach dyma'r uchaf ers i'r data ddechrau ym mis Ionawr ac maent yn uwch na'r gwledydd eraill. Mae [data symudedd Google](#) yn dangos cynnydd parhaus ym meysydd manwerthu a hamdden. Mae categorïau eraill yn dangos cynnydd bach mewn symudedd.
- Ar ôl y cyfnod cyfyngiadau symud, roedd patrymau symudedd yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin, gwelwyd cynnydd mwy o ran symudedd yn Lloegr na Chymru, gyda'r Alban yn dangos

patrwm tebyg i Gymru. Yn ystod mis Gorffennaf cynyddodd symudedd yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr ac mae hynny wedi parhau ym mis Awst.

- Mae'r Ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos rhwng 3 Ionawr a 6 Chwefror 2020, yw'r llinell sylfaen.



Astudiaeth Heintiau y Swyddfa Ystadegau Gwladol

- Mae canlyniadau Cymru yn dangos bod tua 0.05% o boblogaeth y gymuned wedi cael COVID -19 yn yr wythnos hyd at 9 Awst. Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 2,100, neu gyfanswm o 1,500 o bobl yn ystod y cyfnod hwn. Nodwch fod cryn ansicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon, a rhoddir cyfyngau credadwy i ddangos yr ystod y gallem fod yn hyderus bod y gwir ffigur i'w gael ynddi.
- Roedd y gyfran amcangyfrifedig o'r boblogaeth gymunedol gyda COVID-19 yn Lloegr yn 0.05%, yr un peth â'r amcangyfrif ar gyfer Cymru, er yn y ddau achos mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 0.01% agosaf. Ceir tystiolaeth fod cyfraddau mynychder yn Lloegr wedi cynyddu'n ddiweddar ond gallant bellach fod wedi gwastatáu.

• Ymchwil

- Ar hyn o bryd, mae 5095 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd y cyhoedd brys COVID-19, sy'n gynnydd o 76 yn y saith diwrnod diwethaf.

Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan lechyd Cyhoeddus Cymru

- Mae nifer y galwadau i rif 111 y GIG a Galw lechyd Cymru ar gyfer symptomau sy'n ymwneud â COVID-19 yn isel ac yn sefydlog
- Gwelwyd brig yn nifer y galwadau am ambiwlans am resymau a allai fod yn gysylltiedig â COVID-19 ym mis Ebrill ond maent wedi syrthio ac yn sefydlog erbyn hyn
- Mae'r profion positif wedi gostwng o bron 50% ym mis Ebrill i 1% ar gyfer y 7 diwrnod a ddaeth i ben ar 12 Awst.
- Yn ystod yr wythnos a aeth heibio gostyngodd nifer yr achosion o COVID-19 gadarnhawyd yn y lab yn genedlaethol o gymharu â'r wythnos flaenorol
- Mae derbyniadau i'r ysbyty a'r Uned Gofal Dwys yn isel ac yn sefydlog
- Mae'r prif ffocysau diweddar o weithgarwch yn parhau yn y Gogledd, lle'r oedd dangosyddion gwyliadwriaeth yn sefydlog neu'n gostwng yn y rhan fwyaf o ardaloedd, ond cafwyd rhywfaint o gynnydd mewn ardaloedd yn nwyrain Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yng ngogledd Powys yn ystod yr wythnosau diwethaf.
- Mae dal i fod rhwng 1 a 10 o achosion newydd bob wythnos, a'r rheini mewn cartrefi gofal yn bennaf.

Dangosfwrdd Data'r GIG


- Diweddarwyd data lechyd Cyhoeddus Cymru ar 11/08/2020
- Diweddarwyd data ysbytai ar 11/08/2020


UNEDAU GOFAL DWYS LEFEL 3

- O blith y cyfanswm o 138 o gleifion mewn Unedau Gofal Dwys lefel 3 yng Nghymru (sydd wedi gostwng o 144 ers yr adroddiad blaenorol):
 - Mae 1 yn glaf y cadarnhawyd bod COVID arno (ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro);

- Mae 5 yn gleifion yr amheuir bod COVID arnynt (3 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, 1 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac 1 ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe)
- O blith y byrddau iechyd sydd ag Unedau Gofal Dwys lefel 3:
 - Mae'r defnydd gwelyau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn 75% (gan gynnwys 3 claf yr amheuir bod COVID arno)
 - Mae'r defnydd gwelyau ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda yn 59% (i gyd yn gleifion heb COVID)
 - Mae'r defnydd gwelyau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn 72% (gan gynnwys 1 claf yr amheuir bod COVID arno)
 - Mae defnydd gwelyau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro o dan 50%.

Daily L3 ICU Confirmed COVID19 Patients





Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)

- Os yw hynny’n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws gwahanol elfennau’r cyngor a roddir.

